YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
YMDDIHEURAD PASIFFIST.
ADOLYGIADAU.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxv.

Mehefin, 1935

Rhif 6

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXV. MEHEFIN, 1935. RHIF 6

"DOS I'TH YSTAFELL———."

ADDOLWCH yr Arglwydd mewn prydferthwch sancteiddrwydd.—*Salm xcvi, 9.*

* * *

PRYDFERTHWCH Sancteiddrwydd. Prydferthwch ! Prydferthwch y cymeriad Cristionogol : nid yn unig ymddwyn yn gymeradwy ond ymddwyn yn brydferth a chyda gras. Edrychwch ar yr hawddgarwch, y prydferthwch a'r gras oedd yn nodweddiadol o holl weithredoedd yr Iesu. Mae yna rhyw geinder rhyfeddol yn perthyn iddynt i gyd, rhyw hynodrwydd deniadol sydd yn ennill, heb eu gofyn, ein cariad a'n hedmygedd dyfnaf. Beth ydyw ? Prydferthwch sancteiddrwydd.—H. DRUMMOND.

* * *

I BWY bynnag sydd a rhyw deimlad ynddynt fod y byd naturiol yn brydferth, dywedaf,—Gwrteithiwch y teimlad a chalonogwch ef ym mhob modd. Ystyriwch y tymhorau,—llawenydd y gwanwyn, gogoniant yr haf, lliwiau cyfoethog yr hydref, moelni cain coed y gaeaf, harddwch eira, prydferthwch goleuni ar y môr . . . Yn yr ymwybyddiaeth yma o'r Prydferth, os ydym yn feddiannol arno, mae gennym berl gwerthfawr.—YR ARGLWYDD GREY O FALLODEN.

* * *

BYDDAI yn dda yn aml i bobl sydd yn byw mewn dinasoedd i adael trwst a rhuthr bywyd ac i sefyll neu i gerdded yn unig yn y distawrwydd. Fel hynny doem wyneb yn wyneb a'r Creawdwr ; ar ôl berw a dwndwr y frwydr caem glywed eto y llais distaw main. Yn ein hoes ni mae mwy o angen nag erioed i ystyried adar y nefoedd a lili y maes a cheisio cael gafael mewn rhyw gymaint o'u hysbryd di-bryder hwy. Ca'i ein syniadau am werth pethau eu had-drefnu. Ca'i meddyliau hunanol eu gyrru i ffwrdd. Doem yn ymwybodol o gyffyrddiad newydd a chynhaliol â meddwl y Creawdwr.—LLYFR DYSGYBLAETH Y CRYNWYR.

* * *

O DDUW, yr hwn a wnaethost y byd mor brydferth, yr hwn a ysgrifennaist dy ogoniant yn y ffurfafen, dyro dy gymorth i'n hysbrydoedd i weled a gwerthfawrogi yr hyn sydd hardd yn y byd allanol, fel y byddo i ni o dramwy drwy'r pethau sydd dros amser gael gweledigaeth o'r pethau sydd dragwyddol.—Amen.

Nodiadau'r Golygydd.

CYRDDAU LERPWL.

SYNIAD hapus oedd cynnal cyrddau blynyddol yr enwad Undodaidd eleni yn Lerpwl ; yno y dechreuodd y ddadl rhwng awdurdodau Eglwys Loegr ar gwestiwn hawl Undodiaid i gael eu galw yn Gristionogion, ac mae sŵn y frwydr heb farw o'r tir eto. Mae gennyf ryw syniad fod yna rai Undodiaid yn credu mai gwell pe byddai'r ddadl heb fod ; yr wyf yn hollol sicr erbyn hyn fod yna amryw, am ryw resymau hynod yn fwy nag awyddus i beidio pwysleisio fod gwahaniaeth rhyngom a'r Iawnffyddwyr, ond gan nad beth am hynny, mae'n debyg fod yna lu mawr wedi dyfod i Lerpwl eleni a rhyw awydd arnynt i gael golwg ar Eglwys Gadeiriol Lerpwl, a chael clywed yr Esgob fu mor haelfrydig a gwahodd Undodiaid i bregethu o bulpud ei brifeglwys.

Daeth mwy nag arfer ynghyd i'r cyrddau eleni, ac mae'n debig na fodlonwyd pawb, ond cafodd pwy bynnag a ddaeth yno ag arno awydd gwrando a meddwl, gryn lawer i fyfyrio arno. Hawdd yw credu i bwy bynnag na fu yn Lerpwl o'r blaen fwynhau gweled golygfeydd a bywyd prysur y ddinas. Mae yno adeiladau gwych a hawdd oedd credu y Maer fod y Neuadd Drefol y goreu yn y wlad. Yr oedd harddwch yr " ystafell ddawnsio " enfawr lle y cawsom ein croesawu gan y Maer yn rywbeth i synnu ato. Anodd yw dweyd beth i feddwl am yr Eglwys Gadeiriol. Mae honno heb ei gorffen ond mae yno eisioes bentwr mawr o adeiladwaith. Mae ei lliw a'i llun mor wahanol i brifeglwysi eraill fel y teimlid mai nid priodol ei barnu wrth unrhyw safon gynefin. Dywedwyd wrthym y gobeithir ei gorffen mewn pymtheg mlynedd eto, ac mae ar waith oddiar 1904. Erbyn ei gorffen bydd wedi costio dwy filiwn a hanner : swm enfawr, ond ni allwn lai nag edmygu safbwynt yr offeiriad fu yn ein tywys ar hyd y lle ; " Dwy filiwn a hanner ", meddai, " pris adgyweirio (re-conditioning) un llong ryfel ! "

Nos Fawrth pregethwyd y bregeth flynyddol gan y Parch. Lawrence Clare, o Montreal, Canada.

" Crefydd a Gwareiddiad "

oedd ei destun ef. Dyma ei osodiad canolog,—" Mae iechyd Gwareiddiad wedi ei wreiddio yn yr Ymwybyddiaeth o'r Sanctaidd ". Mae'r Sanctaidd yn cynnwys y Gwir, y Prydferth a'r Da. I bob dyn mae deddfau a sefydliadau ei wlad i ryw raddau yn

Sanctaidd, am eu bod yn ymgorffori, er yn amherffaith, ddelfrydau perffaith a thragwyddol. Ym mhob cenedl ceir parch tuag at Bersonoliaeth Dyn, yn mynegu ei hun mewn deddfau i amddiffyn y gwan ; ceir gwarogaeth i'r Prydferth yn cael ei fynegu mewn ymdrechion i gefnogi a diogelu y Celfau Cain : ceir parch tuag at y Gwirionedd yn cael ei fynegu mewn sefydliadau sydd yn hyrwyddo astudiaeth o Wyddor ac Athroniaeth.

Mae " Gweriniaeth " yn ddelfryd na ellir gwneyd hebddi, ond mae i Weriniaeth ei pheryglon. Y perygl mwyaf yw i Ryddid fynd yn Ben-rhyddid, a hyn yn arwain i annhrefn a chenedl yn ymddiried ei hun i Benrheolwr. Ni ddylid anghofio y peryglon hyn. " Pris Rhyddid yw Gwyliadwriaeth Barhaus." Peryglir bywyd gwareiddiad hefyd gan Fateroliaeth. O gyfrif y bydysawd fel peirianwaith enfawr a dyn fel rhyw drychfilyn ar goll rhwng yr olwynion nid oes ond trychineb i'w ddisgwyl.

Y mae dwy ffordd,—Ffordd Bywyd a Ffordd Marwolaeth,—Ffordd Ffydd a Ffordd Anffyddiaeth. Arwain ffordd Anffyddiaeth i Anobaith a Diddymdra. Mae Ffydd yn ysbrydoli ymdrechion goreu dyn ac yn ei alluogi i werthfawrogi y pethau sydd o werth, fel y gall adeiladu gwareiddiad fydd yn llawenydd di-drai.

Boreu Dydd Mercher gwelwyd ar y llwyfan Esgob Lerpwl, a'r Parch. W. D. Edwards, Llywydd Cyngor yr Eglwysi Rhyddion yn Lerpwl. Ni allai dim fod yn fwy hynaws a tharawiadol na chroeso syml a dirodres yr Esgob. Dywedodd ei fod yn ddyledus am lawer o'i ddedwyddwch i'w gyfeillgarwch ag Undodiaid yn Lerpwl. Cyfeiriodd at amser uno y cynulleidfaoedd Undodaidd yn y *General Assembly* chwe mlynedd yn ôl. Dywedai ei fod yn gwybod fod Undodiaid y pryd hynny yn ymwybodol o un o leiaf o'r peryglon oedd yn amgylchynnu corffolaeth enwadol, sef yr ysbryd sectyddol, a'r peth oedd yn tyfu allan o hynny, sef tymer oedd ynddi ei hun yn hollol anghyson a'r ysbryd Cristionogol. Gallai ef feddwl fod Undodiaeth wedi cadw ei hun yn rhydd oddiwrth yr osgo tuag at Gristionogion eraill oedd mor aml yn sarnu y bywyd Cristionogol. Dymunai a gweddiai ar i ni barhau i fod yn rhydd.

Ar ran Eglwysi Rhyddion Lerpwl, estynnodd y Parch. W. D. Edwards groeso syml a gwresog i'r enwad. Soniodd am ddyled yr enwadau i feddylwyr Undodaidd ac am ei ddyled bersonol ei hun i " Hathren ".

Daeth

Araith y Llywydd

—Mr. Ronald P. Jones. Sôn am ddiben eglwys wnaeth efe. Cyfeiriai at yr hyn ddywedodd y Dean Sperry o Havard mewn llyfr o'i eiddo, mai addoliad cyhoeddus oedd prif swyddogaeth

eglwys ac mai pethau ail-raddol oedd pob gwaith arall gyflawnid gan eglwys. Yn nyddiau cynnar Anghydffurfiaeth lle i addoli oedd capel a dim arall, a gelwid ar y gweinidog i roddi ei holl amser a'i nerth i'r gwaith o arwain addoliad a phregethu gair Duw. Yn ystod y ganrif ddiweddaf daeth myrdd o gymdeithasau a sefydliadau o bob math i fodolaeth mewn cysylltiad â'n heglwysi nes yn aml y bernid gwerth gweinidog yn ôl ei lwyddiant fel trefnydd (organiser). Ceid cynulleidfaoedd yn gofidio oherwydd lleihau o nifer yr addolwyr ac yn ymffrostio yn nifer y cymdeithasau a'r sefydliadau fodolent mewn cysylltiad a'r eglwys a'r brwdfrydedd nodweddai waith amrywiol yr wythnos.

Yr oedd dwy ffaith arall yn gyfrifol yn rhannol am fod llai yn mynychu yr addoliad. Ni cheisid gorfodi pobl heddiw i fynychu addoliad, naill ai drwy greu ofn na bygwth deddf na defod. Hefyd yn ein heglwysi ni yn enwedig, pwysleisid " Bywyd ac nid Credo ".

Dywedid yn aml nad oedd gan addoliad yr un ystyr i feddwl goleuedig yr oes hon. Yr ateb i'r dyn fynnai ddweyd na olygai addoliad ddim iddo ef oedd, na fedrai wybod hynny os nad oedd wedi rhoddi prawf rheolaidd a didwyll i'r arferiad o addoli.

Mae trai a llanw yn hanes crefydd. Daw'r llanw eto, efallai, am resymau a thrwy foddion na fedrwn ni eu rhagweled.

Ein tasg ni heddiw ydyw ail greu ymysg ein cynulleidfaoedd ein hunain yr arferiad o addoli, a'i chreu o'r newydd yn y genhedlaeth sydd yn codi.

O gydnabod mai addoliad yw prif swyddogaeth eglwys, dylai ein cynulleidfaoedd roddi ei lle dyladwy i bethau eraill fel pethau yn tarddu o'r addoliad, ac nid pethau wnant y tro yn lle addoli. Dylent galonogi eu gweinidogion i ymryddhau mor bell ag y byddo modd oddiwrth y pethau ail-raddol, fel ag iddynt gael amser a nerth i'w prif waith eu hunain.

O wneyd hyn enillai addoliad eto ei le priodol yn y bywyd ysbrydol, lle na ddylai erioed fod wedi ei golli.

Y Llywydd Newydd.

Etholwyd Mr. George G. Armstrong yn Llywydd am y flwyddyn. Bu Mr. Armstrong yn gysylltiedig ag amryw o newyddiaduron pwysig yn Lloegr yn ystod ei oes, a bu am ysbaid yn olygydd yr *Inquirer*. Y llynedd bu yn llywydd ar y ddirprwyaeth fu yn holi i mewn i gyflwr ein heglwysi dros y wlad, ac yn Lloegr yn cymeradwyo ac yn cymell cydweithrediad a threfn newydd mewn llawer o ardaloedd er mwyn sicrhau gweinidogaeth reolaidd i amryw o eglwysi gweinion.

Pasiwyd yn unfrydol benderfyniad yn mynegu teyrngarwch di-ffuant i'r Brenin a'r Orsedd.

Hefyd pasiwyd yn unfrydol benderfyniad yn mynegu ein gofid oherwydd fod rhyddid personol yn mynd ar goll mewn llawer o

wledydd y byd. Anogai y penderfyniad y llywodraeth i barhau i ymdrechu sicrhau fod hawl pob dyn i ddal y gredo grefyddol a fynno yn cael ei pharchu yn y gwledydd berthynant i Gynghrair y Cenhedloedd.

Dadl ar Gwestiwn Heddwch.

Cynygiwyd penderfyniad ar gwestiwn heddwch yn annog y llywodraeth i ymdrechu ym mhob modd (1) i leihau a chyfyngu ar arfau rhyfel ; (2) i ddwyn Germani yn ôl i Gynghrair y Cenhedloedd ; (3) i sicrhau drwy Gynghrair y Cenhedloedd gyd-ddiogelwch (collective security).

Bore Dydd Mercher cafwyd cyfarfod cyhoeddus, a'r siaradwyr yn trin y pwnc,—

Crefydd a Rhyddid.

Dywedodd y cadeirydd Syr Richard D. Holt y cyfyngid rhyddid gan ddeddf gwlad ond fod yn rhaid i'r ddeddf fod mewn cytgord ag ewyllys gyffredinol y bobl. Ymysg gelynion rhyddid ceid llawer o bobl oedd am wella'r byd, ond a wrthodent ryddid i eraill fynnent wneyd pethau oedd yn groes i'w cynllun hwy i osod y byd yn ei le. Un o ddyledswyddau hanfodol crefydd oedd dysgu dynion sut i fyw, nid iddynt eu hunain, ond er lles cyffredinol dynoliaeth.

" Rhyddid mewn cymdeithas " oedd testun y Parch. E. G. Lee o Shrewsbury. Yr oedd rhyw gymaint o wirionedd, meddai ef, mewn popeth gredid yn onest gan unrhyw un. Ni allai ond bod felly mewn byd a threfn resymol ynddo a thrwyddo. Nid oedd yn bosibl yn y pen draw y twyllid dyn gan ei argyhoeddiadau dyfnaf. Os felly nid oedd hawl gan neb i roddi taw gorfodol ar argyhoeddiadau pobl eraill. Dyna oedd rhyddid, yr ymgais i ddarganfod yr unoliaeth ysbrydol oedd o'r tu ôl i wahaniaethau personol a chenedlaethol a chrefyddol. Ni ddylai credo grefyddol na pholiticaidd fod mor gaeth fel y ceuid unrhyw un allan o honi. Ni allai'r gwirionedd rhannol oedd mewn credo grefyddol neu boliticaidd gul ac awdurdodol gynnwys gwirioneddau mwy.

" Rhyddid yn y Bywyd Cenedlaethol " oedd pwnc Dr. A. S. Hurn, Leicester. Yr oedd pobl dros y byd i gyd yn ceisio am ryddid, meddai ef, ond mewn gwahanol wledydd a than wahanol amgylchiadau nid yr un math o ryddid ymddangosai yn ddymunol bob amser. Yr oedd trigolion Germani wedi plygu i lywodraeth Hitler am eu bod yn dyheu am gael eu rhyddhau o'r caethiwed osodwyd arnynt gan Gyfamod Versailles. Profai hanes Rwsia na fynnai ei thrigolion hi gael eu cadw yn gaeth, ac yr oedd y frwydr am ryddid yn parhau yno. Yr oedd y frwydr fyd-eang i ennill rhyddid yn creu problemau na fedrid eu dehongli ond drwy

gymorth cydwybod a chrefydd. Ni achubid y byd hyd nes y cydnabyddid fod yr hyn sydd yn iawn rhwng dyn a dyn yn iawn rhwng cenedl a chenedl. Ble bynnag y gwneid anghyfiawnder yno y ceid posibilrwydd rhyfel. Yr oedd dylanwad trachwant ac ofn yn drwm ar y berthynas rhwng gwledydd a'u gilydd. Ni ddylai'r nwyd i orchfygu a thra-arglwyddiaethu ddyfod i mewn i gyfathrach y gwledydd, ac ni allai un genedl fwynhau rhyddid ar ei phen ei hun. Credai Undodiaid mewn system fyd-eang orffwysai ar undeb a chyd-weithrediad rhwng y gwledydd i gyd. Ni cheid rhyddid nes y deuai hynny i ben. Gwnai cydwybod dyn orchfygu yn y pen draw, oherwydd yr oedd ysbryd Duw ar waith yn y byd.

"Rhyddid yn y Bywyd Crefyddol ac mewn Addoliad" oedd testun yr Athro F. J. M. Stratton o Caergrawnt. Dywedodd y ceid ymysg Undodiaid ddisgynyddion pobl oedd wedi aberthu llawer dros achos rhyddid crefyddol. Ein tasc ni oedd cyfnerthu y tir enillwyd gan y rhai gynt a symud ymlaen i'r tir newydd baratoir gan symudiadau meddyliol o amgylch i ni. Mae yn debyg mai o'r tu allan i grefydd y daw'r symudiadau fydd yn cyfrif yn y dyfodol ond mae yn anodd penderfynu pa athrawon i ddilyn. Yr oedd perthynas agos rhwng y gwyddonydd a'r dyn a chanddo grefydd rydd. Yr oedd y ddau yn barod i wynebu ffeithiau yn ddi-ragfarn ; yr oedd y ddau yn barod i gyfrif methiant unrhyw ddamcaniaeth fel arwydd gobeithiol o dyfiant yn y dyfodol. Ym myd gwyddor, anhawsderau a'r gwahaniaeth rhwng ffaith a damcaniaeth oedd yn creu gobaith am ddadblygiadau newydd. Byddai ysbryd o'r fath yn gymorth i lawer a boenid gan anhawsderau yn eu bywyd crefyddol. Gyda'r rhyddid i chwilio allan wirionedd newydd dylai fod cydymdeimlad a syniadau pob eraill. Yn ein hymchwil am y gwirionedd yr oedd gennym yr hyder llawen mai y gwirionedd a'n rhyddha ni.

Prynhawn dydd Iau cafwyd cynhadledd, a'r pwnc dan sylw oedd,—

Sylweddoli Brawdoliaeth

Dywedodd y cadeirydd, Mr. P. M. Oliver, y sylweddolir brawdoliaeth ar hyd tair gradd o ddatblygiad. Y cam cyntaf oedd y berthynas bersonol, adnewyddu calon yr unigolyn. Yna, yn ail, ceid cydweithrediad gwirfoddol rhwng dynion er sylweddoli rhyw amcan cymdeithasol. Ar ôl hyn trefnid y gwaith cymdeithasol gan y Wladwriaeth. O gyrhaedd y pwynt hwn gallai brawdoliaeth fod yn dlotach ei ansawdd er iddo fod yn ehangach.

Dywedodd y Parch. R. V. Holt, Coleg Manceinion, Rhydychen, fod pawb yn cydnabod fod Cristionogion wedi methu rhoddi eu hegwyddorion mewn gweithrediad. Yr oedd yn bwysig i ddadansoddi achosion y methiant hwn, am fod yr achosion yn parhau o hyd. O barhau o'r eglwys i fethu, ni cheid pobl i ymddiried

yn ei harweiniad. Achos pennaf methiant yr Eglwys oedd iddi fethu ffurfio damcaniaeth gyfiawn am y byd aniannol yr ydym yn byw ynddo. Cyfrifir fod y byd "naturiol" y nmilwrio yn erbyn bywyd yr ysbryd. Yn yr Eglwys fore disgwylid diwedd y byd yn fuan. Nid oedd angen felly astudio hawliau y byd sydd yr awrhon ar yr enaid. Ni ddaeth diwedd y byd, ac o fethu o'r ddamcaniaeth gyntaf hon, mabwysiadwyd damcaniaeth arall, nad oedd o angenrheidrwydd yn perthyn i Gristionogaeth o gwbl. Y ddamcaniaeth yma, fynnai godi ffin derfynnol rhwng y naturiol a'r ysbrydol oedd wedi parlysu ymdrechion Cristionogion drwy yr oesau i roddi eu hegwyddorion mewn gweithrediad. Gwendid y ddamcaniaeth hon oedd, nid yn gymaint ei heffaith ar gymeriad, ond y ffaith nad oedd yn wir. Nid yw yn wir nad yw'r amgylchiadau mae dyn yn byw ynddynt yn effeithio ar bersonoliaeth.

Siaradodd y Parch. Henry Carter, o'r Cyfundeb Methodistaidd ar "Neges Cristionogaeth a Chyflwr y Byd heddyw."

Dyledswydd y Cristion yw pwysleisio fod Cristionogaeth yn sefyll ar ei phen ei hun. Golyga hyn fod yn rhaid i'r Cristion wadu yn feddyliol ac yn foesol mai y Wladwriaeth sydd a'r hawl uchaf arno. Nid yw hyn yn golygu y dylid osgoi dyledswyddau dinesig, ond golyga fod yn rhaid i ddyn yn y pen draw "ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion".

Ynglŷn â chwestiwn rhyfel, yn y gorffennol gallai yr Eglwys Gristionogol esgusodi ei hun am na fu iddi erioed feddwl allan ei hathrawiaeth ar ryfel, ond ni ellir dadleu ein bod yn amharod heddyw Yr oedd barn yr Eglwys ar ryfel yn cynnwys y ddyledswydd i wrthod yn derfynnol gwneyd rhai pethau, ond golygai Cristionogaeth rywbeth yn rhagor na gwrthod gwneyd pethau. Nid oedd pasiffism negyddol yn ddigon. Rhaid i'r eglwys bwysleisio fod yn rhaid i fywyd adlewyrchu y dwyfol.

Mewn braslun fel hyn ni ellir cyfleu ond ychydig o ysbryd y cyfarfodydd. Digon yw dweyd i'r rhan fwyaf ohonom fodd bynnag deimlo fod pawb fu yn siarad yn ceisio ymgodymu yn onest â phroblemau pwysig ac amserol. Hawdd beirniadu, ond o feddwl am ambell i feirniad yn newid lle a'r dyn mae yn farnu, fe'n cymhellir i fod yn ddiolchgar am "drugareddau bychain".

Teimlad un fu yn gwrando, fodd bynnag, oedd fod ansawdd yr anerchiadau, a'r dadleu hefyd ar y mwyaf, yn deilwng o draddodiadau Undodiaeth, ac y byddai llawer o'n heglwysi yn gyfoethocach pe byddai cyffyrddiad agosach rhyngddynt â'r bobl sydd yn gwneyd rhyw ymdrech i feddwl allan safle a swyddogaeth Undodiaeth yng ngoleuni symudiadau meddyliol a chymdeithasol y byd heddyw.

Ni ddywedwyd air am yr "Essex Hall Lecture" gan y Canon Dearmer ar "Gristionogaeth fel Crefydd Newydd". Ceir ysgrif ar y ddarlith bwysig hon eto.

Ymddiheurad Pasiffist.

O ADNABOD y Golygydd fel ag y gwnaf cefais syndod nid bychan i ddarllen ei erthygl yn rhifyn Ebrill o'r YMOFYNNYDD yn yr hon yr awgryma nad oes hawl gan y bobl gyffredin i farnu llywodraeth y wlad—barnu ei hamcan a'i bwriad, beth bynnag, os nad barnu ei gweithredoedd. Rhaid cofio mai gweision y bobl yw y llywodraeth mewn gwlad rydd, ac y mae'r wlad yma hyd yn hyn yn gymharol rydd, ac nid eu meistri, fel mewn gwlad a reolir gan unbenadur, megis yr Almaen neu'r Eidal. Ac fel y mae perffaith hawl gan y meistr i farnu a cheryddu ei was os gwna yr hyn na ddylai neu os gwna yr hyn a ddylai mewn modd anghywir, felly yn union mae perffaith hawl gan y bobl i farnu a cheryddu y llywodraeth pan welant hi yn cyfeiliorni yn ei ffyrdd a'i gweithredoedd. Fel rheol, nid oes gan y dyn cyffredin un ffordd i farnu amcanion y llywodraeth ond trwy ei gweithredoedd ac, fel rheol eto, gweithredoedd dyn neu gorff o ddynion yw'r ddangoseg orau o'u hamcanion. Er enghraifft, gall llywodraeth gwlad gyhoeddi o bennau'r tai a phrotestio yn y modd mwyaf pendant mai heddwch yw ei hunig amcan yn ei hymwneud â gwledydd eraill, ond os y myn bentyrru pob math o arfau rhyfel heb geisio gwneud fawr arall i hyrwyddo ei hamcan proffesedig, rhaid i'r dyn di-duedd ei choll-farnu a dweud nad yw ei phroffes ond ffug neu nad yw wedi dysgu'r un wers oddiwrth hanes. Fel y dywedodd rhywun, mae ei gweithredoedd yn siarad mor uchel fel nas gellir clywed yr hyn ddywed.

Felly yn union y mae gyda Llywodraeth ein gwlad ni : nid oes ball ar ei phrotest ei bod yn gwneud yr oll a all i hyrwyddo achos heddwch a dangos ei theyrngarwch i Gynghrair y Cenhedloedd, ond pan fernir ei gweithredoedd o'r safbwynt hwn gwelir ei bod yn syrthio'n fyr iawn o'i phroffesiadau. Gŵyr y Llywodraeth cystal â neb a gwell na'r rhan fwyaf mai un o brif achosion y Rhyfel Mawr oedd pentyrru arfau rhyfel ar ran prif wledydd Ewrop a'r byd, a gŵyr hefyd mai dyna yw effaith pentyrru arfau bob amser yn y pen draw os yw wedi dysgu unrhyw beth oddiwrth hanes ; ond eto'i gyd, er gwaethaf hyn oll, dyma hi ar adeg mor bwysig a difrif a'r presennol, pan oedd ei Gweinidog Tramor ar fin cychwyn i'r Almaen er ceisio cael gwell dealltwriaeth â'r wlad honno i'r diben o leihau arfau rhyfel, dyma hi yn cyhoeddi i'r byd ei bod yn mynd i ychwanegu atynt a chystal a dweyd nad yw o un amcan mwyach i geisio cyd-ddealltwriaeth rhwng y gwledydd, ac fod y gyfundrefn o geisio heddwch trwy gydweithrediad y gwledydd yn y Cynghrair wedi torri i lawr. Ymhellach, yn y Gynhadledd Ddiarfogi pan mae un o'r glwedydd eraill megis Rwsia neu'r Talaethau Unol wedi dod â chynllun gwir addawol ymlaen i'r perwyl o ddwyn hyn i ben, mae ein Llywodraeth ni bron yn

ddieithriad wedi ffeindio rhyw fai ynddo ac wedi bod yn achos iddo gael ei wrthod, e.e. gwrthododd gynnyg yr Arglwydd Hoover tua dechrau'r Gynhadledd i leihau pob math o arfau rhyfel trwy un rhan o dair o'u nerth ar y pryd ; mae wedi gwrthod amryw gynygion o Rwsia oedd a'u hamcan i gael diarfogiad llwyr ; gwrthododd gynnyg yr Arglwydd Roosevelt ym mis Rhagfyr 1933 i wneud i ffwrdd â phob math o arfau ymosodol, ac yn olaf yn y dyddiau diwethaf hyn mae wedi gwrthod y cynnyg y dylid chwilio i mewn ymhob gwlad a yw yn cyflawni ei haddewid i ddiarfogi, h.y. pe gellid penderfynu ar gynllun o gwbl. Yn wir, mae wedi gwneud hyn gymaint ag ugain o weithiau i gyd.

Dywed y Golygydd hefyd mai dim ond dau gwrs oedd yn agored i'r Llywodraeth i gymryd o dan yr amgylchiadau, sef dilyn cynllun y Papur Gwyn neu ymddiswyddo. Yn y cysylltiad yma, ai nid yw wedi anghofio'r cynllun syml a gonest o gyflawni addewidion ? Gŵyr ef cystal a minnau i'r Cynghreiriaid yn Versailles yn 1919 ddiarfogi'r Almaen fel blaenffrwyth, meddent hwy, o ddiarfogiad cyffredinol, ond nid yw'r un ohonynt wedi gwneud hynny, eithr yn hytrach yn ddiweddar wedi ychwanegu at eu harfau. Gŵyr hefyd, os yw yn onest ag ef ei hun, a chredaf yn ddiffuant ei fod, nad yw yn rhy ddiweddar hyd yn oed yn awr i wneud hynny, gan fo Hitler (ac efe yw'r bwgan, onide ?) wedi dweyd droion ei fod yn fodlon diarfogi neu beidio arfogi ond i bob gwlad fawr arall wneud hynny a'i fod yn barod i wneud i ffwrdd yn llwyr ag awyrlongau rhyfel ar y telerau fod y gwledydd eraill yn gwneud yr un fath. Ac nid oes dim yn fwy teg na hynny, oes e' ? Dychmygaf glywed rhywun yn dweud ei bod yn rhwydd iawn i Hitler siarad ac addaw y gwna hyn a'r llall, ond na fyddai iddo gyflawni ei addewidion pe cymrid ef ar ei air. Wel, fy ateb i hynyna yw : Rhodder cyfle iddo i wneud yr hyn ddywed wna, a gofaler ei fod ef a phob llywodraeth arall yn cyflawni ei haddewidion. Ond yn hyn o beth eto mae ein Llywodraeth ni yn faen tramgwydd, am ei bod newydd wrthod y cynnyg y dylid chwilio i mewn ymhob gwlad a yw yn cadw ei haddewid i ddiarfogi, h.y. pe penderfynid ar hynny o gwbl.

Y gwir am dani yw, mae'r Llywodraeth bresennol, fel y Phariseaid gynt, yn barod iawn i ddegymu'r mintis a'r anis a'r cwmin a gadael allan bethau trymach y gyfraith, sef barn, trugaredd a ffydd, neu, mewn geiriau eraill, mae yn barod iawn i *broffesu ei theyrngarwch* i Gynghrair y Cenhedloedd ond yn rhy barod o lawer i anghofio ei phroffesiadau a *gweithredu i'r gwrthwyneb*. Mor wir yw hyn fel mae hyd yn oed un o'i chynrychiolwyr hi ei hunan yn Geneva (Mrs. Corbett Ashby) wedi teimlo yn angenrhaid arni i ymddiswyddo. I garedigion heddwch sydd yn fodlon aberthu ac wedi aberthu llawer dros Heddwch ymddengys gweithredoedd y Llywodraeth, o'u cyferbynnu a'i phroffesiadau, wneud mwy i

ddifrïo'r gyfundrefn gydweithredol fel y'i dangosir yn y Cynghrair nag i'w hyrwyddo. Yn y " Bleidlais Heddwch " mae'r wlad wedi dangos yn ddigon amlwg beth yw ei barn am y Cynghrair ac arfau rhyfel, ac mewn gwlad lle mae'r werin yn llywodraethu, neu beth bynnag, lle'r honnir ei bod yn llywodraethu, dyletswydd y Llywodraeth yw cario allan ewyllys y bobl, ac nid ceisio ei gwrthwynebu ymhob modd bron, fel y gwna'r Llywodraeth bresennol. Cyn y gellir byth gael cyd-ddealltwriaeth a chydweithrediad rhwng y gwledydd rhaid i bob gwlad fod yn fodlon i aberthu rhyw gymaint er mwyn y lleill, a dyletswydd ein Llywodraeth ni felly a saif dros y weriniaeth gryfaf ac, yn ei phroffes, fwyaf Cristionogol yn yr holl fyd, yw rhoddi esiampl dda i'r gwledydd eraill yn y mater yma a bodloni i aberthu rhai o'i buddiannau a'i rhagorfreintiau er lles pob gwlad yn gyffredinol.

Ac yn awr cyn terfynu, ychydig eiriau yn fyr am y person hwnnw y mae'r byd mor barod i edrych lawr arno a'i gicio, yn llythrennol yn adeg rhyfel ac yn ffigurol bob amser, h.y., y pasiffist. Addefa'r Golygydd yn ei sylwadau na fyddai yna yr un " broblem heddwch " pe bai pawb yn gwneud y penderfyniad i fod yn basiffistiaid, ac o addef hynny, fe ymddengys i mi, fe addefa'r oll a honna'r pasiffist. Y broblem yw, (onide ?) sut i sicrhau heddwch, a dywed y pasiffist mai'r ffordd orau yw trwy i bawb ymhob gwlad wneud y penderfyniad i beidio ymladd o dan unrhyw amgylchiad a chadw at y penderfyniad, a dyna, os wyf yn ei ddeall yn iawn, a ddywed y Golygydd hefyd. Os felly, 'rydym yn unfryd unfarn, ond rhag ofn y bydd y darllenydd yn disgwyl cael eglurhad pellach ar yr hyn olygir wrth y gair pasiffist gadawer imi ddweyd ychydig eiriau ymhellach ar y mater Mor bell ag yr wyf i yn deall ystyr y gair, a chredaf fy mod yn lled agos i'r ystyr a roddir iddo yn gyffredin, pasiffist yw'r dyn hwnnw a ddywed ynddo'i hun na fydd iddo ef o dan un amgylchiad nac am yr un rheswm gymryd i fyny arfau rhyfel yn erbyn ei gyd-ddyn, i ba wlad bynnag y perthyno. Dywed ymhellach na ddylai ei wlad wneud defnydd o arfau rhyfel ac mai ei pholisi ddylai fod i ddiarfogi yn llwyr a gwneud i ffwrdd â phob math o arfau a ddefnyddir gan wledydd i ladd a dinistrio ei gilydd. Gŵyr mai menter yw'r cynllun yma ac nad yw heb ei beryglon i'r wlad a all ei fabwysiadu, ond cred na fyddai'r peryglon y filfed ran o'r hyn y'u portreadir weithiau a chred ymhellach y bydd raid i ryw wlad fentro diarfogi yn llwyr cyn byth y daw heddwch parhaus. Mae ei gred yn y natur ddynol yn gryf ac ni thybia y byddai i unrhyw wlad ymosod ar y wlad hon, er enghraifft, pe bai iddi fentro diarfogi ac ar yr un pryd fabwysiadu polisi haelfrydig tuag at y byd yn gyffredinol, e.e. rhoi eu hannibyniaeth yn llwyr i'r Aifft a'r India a gofalu fod angenrheidiau bywyd a masnach, mor bell ag y mae yn ei gallu hi, yn eiddo i bob gwlad. Fe welir felly fod y gair pasiffist yn cyfeirio yn fwy neilltuol at gysylltiadau

a dyletswyddau gwledydd tuag at ei gilydd, yn hytrach nag at eiddo unigolion. Gwelir hefyd na olyga yn hollol yr un fath a Tholstoyad, neu ddisgybl Tolstoy, h.y. un a gred na ddylid gwrthwynebu drwg o gwbl. I'm tyb i, amcan y pasiffist yw ceisio cymhwyso addysg Iesu Grist at gysylltiadau gwledydd â'i gilydd, er fod yna lawer i basiffist na chyfrifa ei hun yn Gristion ; ac os yw dyn yn ddisgybl mewn gwirionedd i'r Iesu rhaid iddo, fe ymddengys i mi, gredu fod ei addysg yn un y gellir ei chymhwyso at gysylltiadau cenhedloedd yn ogystal ag eiddo unigolion.

Cyn terfynu carwn wneud yn eglur i'r darllenydd mai ar gais y Golygydd yr ysgrifennaf hyn o erthygl ac ni fwriadaf gymryd rhan mewn unrhyw ddadl a all godi ohoni

D.J.D.

Adolygiadau.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY. Herbert J. Rossington, M.A., B.D. Lindsey Press. 1s.

THE LONDON DOMESTIC MISSION SOCIETY. V. D. Davies, B.A. Lindsey Press. 1s.

Dylai y llyfr bach ar "Hanfodion Cristionogaeth" gan weinidog Eglwys y Meseia, Birmingham, brofi yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd ag awydd arno ail ymgynefino ag egwyddorion canolog y ffydd Undodaidd. Deil Undodiaid mai egwyddorion hanfodol y ffydd Gristionogol yw a ganlyn : Tadoldeb Duw ; Brawdoldeb Dyn ; Iesu yn Arweinydd ; Buddugoliaeth y Da ; Teyrnas Dduw ; Bywyd Tragwyddol. Tasg yr awdur oedd esbonio y chwech pwynt yma, ac mae wedi gwneyd hynny mewn modd ddylai ennill cymeradwyaeth a diolchgarwch pob un fydd yn ddigon doeth i ddilyn ei ymresymiadau yn ofalus. Yr oedd gan yr awdur amcan arall mewn golwg hefyd, sef argyhoeddi eraill y tu allan i'r eglwysi Undodaidd mai nid ysbryd gwadu sydd yn nodweddiadol o'r ffydd Undodaidd, ond ysbryd cadarnhaol, ysbryd sydd yn pwysleisio y pethau sydd o werth hanfodol mewn ffydd a chrefydd. Deil yr awdur mai yr hyn oedd yn hanfodol yn nysgeidiaeth yr Iesu oedd ei syniad o'r hyn olygai Tadoldeb Duw : digonolrwydd y ffydd fod Duw yn Dad mewn bywyd a marwolaeth, a'r penderfyniad i wneyd y ffydd yma yn effeithiol er iechydwriaeth y byd. A'r ffydd yma medd yr awdur yw angen gobaith y mudiad Undodaidd.

Mae Cymdeithas Genhadol Gartrefol Llundain yn dathlu ei chanmlwyddiant eleni ac mae'r Parch. V. D. Davies wedi ysgrifennu llyfr bach sydd yn rhoddi hanes diddorol dros ben am waith a helyntion y gymdeithas yn ystod y ganrif. Gweinyddu i anghenion y tlodion mewn amryw fannau yn Llundain fu gwaith y gymdeithas. Daeth y cymhelliad i ddechreu gwaith fel yma yn y lle cyntaf o'r America, lle yr oedd Dr. Joseph Tuckerman, cyfaill mynwesol Dr. Channing wedi bod yn gwneyd gwaith cyffelyb yn Boston. O ddarllen hanes gwaith Dr. Tuckerman, taniwyd y Parch. W. J. Fox ag awydd i wneyd rhywbeth tebyg yn y wlad hon, ac ar ei apêl ddifrifol ef dechreuwyd y gwaith. Ceir yma hanes am restr hir o weinidogion a lleygwyr fu yn gwasanaethu gyda ffyddlondeb ag hunan-aberth sydd yn hawlio ein hedmygedd llwyraf. Mae cyflwr y tlodion wedi gwella llawer yn ystod y ganrif aeth heibio ond mae angen o hyd am y cyfeillgarwch a'r cydymdeimlad a'r cymorth ysbrydol ellir roddi mewn lleoedd fel sydd gan y gymdeithas yma yn Llundain. Ni ellir meddwl am well llyfryn i'w bwrcasu os am brawf y gall y ffydd Undodaidd ysbrydoli dynion i fynd ag efengyl effeithiol i fysg trueiniaid cymdeithas.

Marwgofion.

Ebrill 14, yn 73 oed bu farw DAVID LEWIS, Nantfach, Alltyblaca. Teiliwr ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac yn ddigartref ers blynyddoedd bellach, ac fel canlyniad âi o le i le, i gyflawni ei waith. Gwnaeth gartref iddo'i hun lle bynnag yr elai. 'Roedd yn feddiannol ar feddwl cryf, a gwybodaeth helaeth, a difyr oedd ei gwmni bob amser. Bu farw yn Neuadd Fawr, Llanwnen, lle cafodd bob gofal a thiriondeb gan y teulu, ac hefyd gan lu o gyfeillion eraill. Claddwyd ef y dydd Mercher canlynol ym mynwent Alltyblaca. Gwasanaethwyd gan y Parch. Dewi Jones, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Ben Davies (E) a S. Evans Bowen.

Difyr oedd cwmni Dafydd—ond wele
Ei dalar, ddi-wenydd ;
I'w glod e' chwifiai'i nodwydd
Hoff, a'i awch, mwy'n ddisgloff fydd.

Cribin Bach.

Ebrill 20, MARY JONES, annwyl briod Benjamin Jones, Heulwen, Gelligron, Pontshaen, yn 72 oed. Bu hi a'i theulu yn byw am flynyddoedd yng Nghwmbach, Cwrtnewydd, a dilynodd yr enw " Mari Cwmbach " hi hyd y terfyn. Benyw ragorol iawn oedd y chwaer yma : gonest, llawen ac o ysbryd a chalon garedig. Cawsom lawer i brynhawn hyfryd iawn ar ei haelwyd yng Nghwmbach a bydd yr adgof am danynt yn aros er ei bod hi wedi mynd. Flynyddoedd yn ôl claddwyd gweddillion mab a merch iddi'n mynwent Capelyfadfa : yr oedd y lle yn annwyl iddi o'r blaen—aeth yn anwylach fyth yn awr. Iddi hi yr oedd daear mynwent Capelyfadfa yn ddaear sanctaidd, a'r capel yn dŷ sanctaidd. Rhyw dair neu bedair blynedd yn ôl dechreuodd nychu ; ciliodd nerth y corff, diflannodd y cof—ni chlywem y chwerthin llawen arferol—ac eto daliodd ati i godi bron bob dydd. Cafodd bob gofal oddiar law ei phriod a'i phlant—yn enwedig y ferch ddaeth atynt i fyw er mwyn eu hamgeleddu. Gadawodd briod, tri o blant, chwaer, dau frawd a llawer o berthynasau a ffrindiau i gŵyno ei cholli. Claddwyd y Mawrth dilynol ym mynwent Capelyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a J. Marles Thomas, M.A.

Bu farw HETTY THOMAS, Aberythan, Llandysul, Ebrill 25, yng nghartref ei merch, Mrs. Howells, Trealaw yn 82 mlwydd oed a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent Pantydefaid Mai 1, â'r Gweinidog yn gwasanaethu. Dynes weithgar a charedig oedd Mrs. Thomas, cymydoges dda ac o gymeriad swynol a llawn cydymdeimlad. " God's finger touched her and she slept."

Ebrill 26, RACHEL RIDGWAY, annwyl briod William Ridgway, 26, Fenwick Street, Pontygwaith, yn 64 oed. Un o ardal Llwynrhydowen oedd yn endigol ac mae llawer o berthynasau agos iddi yn yr ardal o hyd. Er iddi hi a'i theulu gefnu ar y gymydogaeth flynyddoedd lawer yn ôl cadwodd ei serch at yr hen gymydogaeth a chapel Llwynrhydowen yn gynnes hyd y diwedd a pha syndod hynny ? onid yma y gorwedd gweddillion ei rhieni a dau blentyn iddi ? Dygwyd ei chorff hithau yma y dydd Mawrth dilynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Dr. D. M. Phillips (M.C.), Tylorstown ac yn Llwynrhydowen gan y Parch. E. O. Jenkins. Bu'n fethedig am 14 mlynedd ac am amser maith cyn ei marw yn gystuddiol iawn. Bu ei phriod a'i phlant yn dyner iawn o honi yn ei chystudd maith. Gadawodd i alaru o'i cholli ei phriod, tri o blant, tair chwaer, dau frawd a llawer o berthynasau ereill. Yr oedd yn fenyw o yspryd caredig a hawddgar a gwnai a chadwai gyfeillion yn rhwydd iawn.

Ebrill 30, yn 9 oed, yn y "Children's Hospital," Great Ormond Street, bu farw JOHN LESLIE EVANS, annwyl ac unig blentyn James a Nellie Evans, 138, Ossulton Street, Llundain. Er mai cymharol fyr fu'r cystudd a derfynodd yn ei farw, ni bu'n holliach trwy'r gaeaf. Dygpwyd ei weddillion i dŷ ei daid a'i nain, John a Margaret Evans, Maesyronnen, Cribyn, y Sadwrn dilynol, a chladdwyd ym mynwent y capel brynhawn dydd Llun, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans. Er mai anghyhoedd oedd y cynhebrwng, eto daeth ynghyd nifer luosog o gymdogion, yn ychwanegol at gylch eang o berthynasau, fel arwydd o'u cydymdeimlad â'r teulu yn y golled o blentyn a oedd mor annwyl iddynt. Bu gryn dipyn o'i amser gyda'i daid a'i nain ym Maesyronnen, a hoffid ef yn fawr gan y pentrefwyr—y plant yn enwedig. Danfonwyd nifer fawr o blethdorchau o Lunden yn ychwanegol at amryw o rai lleol i'w gosod ar ei fedd.

Mai 12, yn 28 mlwydd oed, DOROTHY MEAD, Tŷ'r Capel, Capelybryn, Cwrtnewydd. Perthynai i'r diweddar Sarah Evans, Lôn, Alltyblaca, a chyda hi y cartrefai o'r dechreu hyd iddi fyned i Lundain tua deg mlynedd yn ôl. Ymbriododd a brodor o'r brif ddinas. Bu ei phriod farw tua dwy flynedd yn ôl. Dychwelodd hi i fyw at berthynas iddi yng Nghwrtnewydd. Yr oedd afiechyd wedi ymaflyd yn ei chyfansoddiad y pryd hwn a fu yn achos ei marwolaeth. Yr oedd yn un na chafodd meddwl drwg le yn ei mynwes. Meddai ar ysbryd llednais, ar ewyllys dda, ar galon uniawn, ac ar gymeriad a hoffai pawb. Yr oedd iddi lu o gyfeillion, ac amlwg oedd ar ddydd ei hangladd eu bod yn tristhau o'i cholli. Gadawodd yn amddifad un ferch fechan tua thair mlwydd oed. Yr oedd iddi heblaw hynny amryw o berthynasau. Claddwyd ym mynwent eglwys Alltyblaca. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin a'r Parch. Ben Davies, Ficer, Llanwenog. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. Lewis Williams, a gwasanaethwyd wrth y bedd gan y Parch. Thomas Jones, Offeiriad, Llanybyther. Methodd y Parch. S. Evans Bowen fod yn bresennol.

Mai 2 bu farw MARY DAVIES, King's Head, Llandysul yn 74 mlwydd oed a daearwyd ei chorff ym mynwent Pantydefaid Mai 6. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. R. Morris (B) a'r Parch. D. Rhydderch, B.A. (A), ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Gweinidog. Cydymdeimlir yn fawr â'r priod a'r plant yn colli gwraig mor annwyl a mam mor dyner. Mae'r teulu wedi colli eu cyfaill goreu, mae'r pentref wedi colli cymeriad hardd, ac eglwys y Graig ag oedd mor annwyl iddi wedi colli aelod ffyddlon ac anrhydeddus. "Hon oedd yn llawn gweithredoedd da"—dyna ddedfryd unfrydol ei chyfeillion am dani.

Disgynnodd cwmwl o siomedigaeth ac o hiraeth ar bentref Llandysul prynhawn Gwener, Mai 24 pan ddaeth sôn am farwolaeth disyfyd DAVID DAVIES, Ffinant, mab henaf Mr. Griffith Davies a'r diweddar Mrs. Davies, Kings Head, ac yntau ond 48 mlwydd oed. Gadawodd ar ei ôl weddw a phedwar o blant. Duw a fyddo yn Ddiddanydd iddynt yn eu unigedd a thrallod. "Ffordd Duw sydd yn y dyfroedd a'i lwybrau oll yn gudd." Priod annwyl yn cael ei alw gartref yn ddirybudd ; tad tyner, cariadus, dyn o gymeriad gwyn, hynod annwyl, a mab a garai ei dad a'i fam i'r eithafion, dyn tawel yn hoff o'i gartref a'i gapel, yn addurn i Ysgol Sul y Graig, cyfaill werth ei adnabod ; yn ei ostyngeiddrwydd, yn ei ddiniweidrwydd, yn ei onestrwydd, yn ei weithgarwch, yn ei symlrwydd—yn un o ddisgyblion goreu Iesu Grist. Claddwyd ym mynwent Penybont Mai 28. Yn y tŷ darllenodd y Parch. S. Morgan, Curad y Plwyf, gweddiwyd gan y Parch. R. Morris (B), pregethwyd ym Mhenybont gan y Parch. E. Gwilym Evans, a gwasanaethwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. Myfyr Evans (M.C.). "After life's fitful fever—he sleeps well."

Nodion yr Eglwysi.

DALIER SYLW.—Yn unol â rheolau newydd y Gymdeithas mae'n ofynnol i bob cynulleidfa ddewis dau gynrychiolydd i weithredu ar Bwyllgorau'r Gymdeithas am y flwyddyn. Hyderaf y gwna'r cynulleidfaoedd ddewis eu cynrychiolwyr a gyrru eu henwau i mi cyn diwedd mis Mehefin.—E. O. JENKINS.

DYRCHAFIAD.—Bydd llawer yn llawenhau o wybod fod Mr. David Howell Davies, mab hynaf y diweddar David a Rachel Davies, Llythyrdy, Felinfach, Dyffryn Aeron, wedi cael ei benodi i fod yn Geidwad Llythyrdy Aberdeen. Nid yw Mr. Davies ond canol-oed, ond y mae wedi bod yn Geidwad Llythyrdy mewn pedwar o leoedd eisoes, a phob un ohonynt yn leoedd pwysig. Nid oes ond dwy flynedd oddiar pan y dyrchafwyd ef o Scarborough i Bromley lle y mae yn bresennol, ac wele ef wedi cael ei ddyrchafu eto i fod yn Geidwad Llythyrdy Aberdeen. Rhaid fod yn Mr. Davies ryw ansoddau nodedig cyn ei fod yn cael ei ddewis o blith llaweroedd i leoedd mor bwysig. "Da, was da."

ALLTYBLACA.—Dydd Gwener, Mai 3, cynhaliodd yr Ysgol Sul ei thê blynyddol. Paratowyd hwn gan aelodau'r gynulleidfa, a gwnawd hynny yn ardderchog. O flwyddyn i flwyddyn mae yna rhyw un wedi meddwl ymlaen am ddanteithion i'r plant, ac eleni cafwyd *oranges* oddiwrth Mrs. Lewis, Penybont. Yn yr hwyr rhoddodd y plant gyngerdd. 'Doedd hwn ddim mor hir ag arfer—ond yr oedd yn dda. Anrhegwyd amryw am ei mynychiad cyson, rhai o honynt yn ddi-fwlch, o'r Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

CRONFA'R BWRDD PRESBYTERAIDD.—Cydnabyddaf yn ddiolchgar y tanysgrifiadau canlynol am y flwyddyn 1934-5 :—

	£	s.	c.
Mr. T. Thomas, Spring Gardens, Llandysul	1	1	0
Mr. W. S. Jones, Aberystwyth	1	1	0
Mr. T. Botting, Aberdâr	1	1	0
Dr. Tom Evans, Abertawe	1	1	0
Mr. J. B. Willans	1	0	0
Mr. A. T. Grindley, Aberystwyth	1	0	0
Miss R. E. Jones, Abertawe	1	0	0
Mr. Meredith Williams, Penralltnewydd, Llanybydder	0	10	6
Mrs. Jones, Gellifaharen, Llandysul	0	10	6
Miss Olwen Jones, Rhandir, Parkmill	0	10	0
Y Parch. E. O. Jenkins	0	10	0
Mrs. S. G. Hudson, Bryste	0	10	0
Y Parch. T. O. Williams, Llanbedr	0	10	0
Mrs. S. Lloyd Davies, Gwyon Castle, Llandysul	0	10	0
Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybydder	0	10	0
Y Parch. D. Evans, Cwmiago, Cribyn	0	10	0
Mrs. J. E. Jones, Aberystwyth	0	7	6
Mrs. Jones, Ogmore House, Llanbedr	0	5	0
Mr. D. Jones, Dolgerdd, Talgarreg	0	5	0
Y Parch. J. Marles Thomas, Aberystwyth	0	5	0
Dr. D. J. Davies, Aberystwyth	0	5	0
Miss Mary Thomas, Lerpwl	0	5	0
Y Parch. Lewis Williams, Felinfach	0	2	6
Cyfanswm ..	£13	10	0

W. S. JONES, *Trysorydd.*

CAPEL-Y-BRYN.—Nos Sadwrn, Mai 4, yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd, dan nawdd cynulleidfa Capel-y-Bryn chwareuwyd "Ffynhonna" gan barti o Cribyn. Trefnwyd yr adeg i anrhydeddu Mr. John Jones, Crosshands, yr hwn ers peth amser sydd yn dioddef oddiwrth methu o'i olygon. Fe'n atgofiwyd am ei wasanaeth hir a da i'w gapel lle y mae yn ddiacon ffyddlon, ac o'i wasanaeth arbennig fel athro i'r plant bach yn yr Ysgol Sul. Ar ei ran ef a'i deulu mynegodd Mr. Thomas Davies, y Felin eu diolchgarwch i'r lliaws cyfeillion oedd wedi gwneud y noson yn un mor llwyddiannus, ac i'r Parti, yr hwn a aeth drwy ei waith yn ganmoladwy, am ei wasanaeth caredig. Cadeiriwyd gan Mr. Evan Evans, Y Garth.

CAPELYGROES.—Y mae y Misses Williams, Blaenberllan, gynt o Red Lion, Cwrtnewydd, wedi cyfrannu i gynulleidfa Capelygroes rodd o £50, i'w defnyddio at gynnal y weinidogaeth, ar yr amod y gofelir am feddau'r teulu. Yr oedd eu tad, y diweddar Evan Williams, yn aelod ffyddlon o'r Eglwys. Dymunir cyflwyno i Misses Williams ddiolch gwresog y gynulleidfa am eu caredigrwydd.

CYMANFA YSGOLION SUL.—Gwener, Mai 24, cynhaliodd Ysgolion Sul Ciliau Aeron, Rhydygwin, Cribyn, Capelybryn a Chapelycwm eu Cymanfa flynyddol yn Rhydygwin. Holwyd yr ysgolion gan y Parchn. David Evans a Lewis Williams. Ni welwyd gwedd mor lewyrchus ar yr ysgolion hyn er's llawer o flynyddau. Nodweddid y gymanfa gan awyrgylch ddymunol iawn. a chan amlygiad o serch at yr Ysgol Sul a'i gwaith. Adroddwyd penodau gan ddwy ferch ieuanc o Ysgol y Cribyn, a chan fab ieuanc o ysgol Capelybryn. Dywedodd un o ffyddloniaid yr Ysgol Sul ar ôl cyfarfod y bore ei fod ef wedi cael cyflawn dâl am ddod i'r gymanfa oblegid y modd boddhaol ag yr oedd ysgolion y bore wedi myned drwy eu gwaith. Hyfryd oedd gweled yr hynafgwyr sydd wedi bod yn ffyddlon ar hyd y blynyddau gyda'r Ysgol Sul yn parhau i fod felly. Maent yn gwneyd gwasanaeth gwerthfawr pe dim ond ar gyfrif yr esiampl dda a roddant i'r ieuainc. Yr oedd y Parch. Emrys Evans, Ty'nygwndwn (A), yn bresennol, a chynorthwyodd gyda'r rhannau defosiynol. Gwnaeth pawb perthynol i eglwys Rhydygwin eu rhan yn dda.

GRAIG, LLANDYSUL.—Cynhaliwyd Bazaar yn Festri Capel y Graig, Llandysul, dydd Mercher, Mai 1, gyda Mr. Thomas Thomas, Spring Gardens yn y gadair a chyda Mrs. Josiah Jones, Garthowen yn agor y Bazaar drwy anerchiad ardderchog. Cafwyd hefyd rodd ariannol anrhydeddus gan Mrs. Jones. Daeth trigolion y pentref a'r cylch yn gryno i gynorthwyo cynulleidfa y Graig, ac yn ystod y prynhawn derbyniwyd £150. Swyddogion y Bazaar oeddent, Mrs. James, Richmond Villa, Ysgrifennydd ; Mrs. Penry Lewis, Fair View, Trysorydd ; Mrs. Evans, Awelon, Llywydd.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliwyd yr Wyl Dê Flynyddol yn y lle hwn nawn Groglith. Er fod yr hin ychydig yn llaith cafwyd prynhawn tawel a chymharol hindda. Rhoddwyr y Tê oedd teuluoedd Pantmoch a Phenrallt ac yr oedd popeth i fyny â'u ffyddlondeb diball hwy. Diolch yn fawr iddynt. Daeth nifer fawr o blant a phobl mewn oed ynghyd a chafwyd amser da. Y bwyta drosodd rhannwyd melusion i'r plant. Cynhaliwyd Cyngerdd Blynyddol yr Ysgol Sul yn yr hwyr o dan lywyddiaeth Mr. Richard Davies, Penrallt. Cafwyd adrodd, canu, *action songs* a darnau ereill neillduol o dlws gan gorau'r plant o dan arweiniad Miss Mallie Davies, Dewi Villa. Mae diolchgarwch mawr yn ddyledus iddi hi a Miss M. H. Dudley am eu llafur yn paratoi'r plant. Diolchwyd yn ffurfiol am y wledd gan Mr. W. J. James, Rhyd-Coedfoel.

RHYDYGWIN.—Ar y Sul cyntaf ym Mai derbyniwyd yn yr eglwys hon unarddeg o aelodau newydd.

LLWYNRHYDOWEN.—Yn y lle hwn, ar nawn Sul, Mai 26, cynhaliodd Ysgolion Sul cylch Llandysul eu Cymanfa flynyddol. Yr oedd yr hin yn bopeth y gellid disgwyl ac yr oedd y pedair ysgol ar eu goreu. Un o blant y Gymanfa, sef y Parch. J. Marles Thomas, M.A., Aberystwyth, oedd yr Arholwr, a gwnaeth ei waith mewn modd medrus a derbyniol. Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan Mr. Bryn Jones, B.Sc., Tregroes a thraddododd y Parch. Marles Thomas bregeth rymus ac amserol. Chwareuwyd yr offeryn gan Miss Mallie Davies, L.L.C.M., Dewi Villa, ac arweinydd y gân oedd Mr. Evan Richards o Landysul. Bu'r Gymanfa yn llwyddiant ymhob ystyr, a gobeithir y bydd yn help i greu bywyd newydd yn yr Ysgol Sul yn y cylch. Cynygiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i bawb gan y Parch. E. O. Jenkins, ac eiliwyd ef gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Llandysul.

[Allan o Lyfr Newydd Sarnicol—"*Blodau Drain Duon.*" Pris 1/2 drwy'r Post o Swyddfa'r Ymofynnydd, Llandysul.]

SET DDIWIFRAU GWR SAFIN.

Fe brynodd set ail-law am bunt
Er mwyn cael pregeth yn ei dŷ,
A pheidio â mynd drwy'r glaw a'r gwynt
I'r cwrdd, fel yn y dyddiau fu.
Heblaw, fe arbed gost i'r dyn ;
Yn ôl ei gyfraniadau llynedd
Fe dâl y set amdani ei hun
Ymhen rhyw ugain mlynedd.

SAM A RHYS.

'Roedd Sam y Siopwr yn ei ddydd
Yn gampwr mewn dadleuon,
A gyrrodd rai o deulu'r ffydd
Ymhell i dir amheuon.
Ond denai Rhys yr Hendref hwy
Cyn hir yn ôl i'w llefydd
Heb drwst na dadlau mwy na mwy,—
'Roedd Rhys yn byw ei grefydd.

Y mae

Cyflenwad Newydd

o argraffiad

Hen Nodiant o'r Perlau Moliant

i'w cael yn awr.

Gyrer amdano (gyda blaendal o 7/6; Cludiad, 5c.=7/11) i Swyddfa'r Ymofynnydd, Llandysul.

J. D. Lewis a'i Feibion. Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... 7/6 or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... 4/6 or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. 2/6 or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... 1/6 or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones

F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

Qualified Ophthalmic Optician, Jeweller and Silversmith

MY CONSULTING ROOM at the address below is fully equipped with the very latest appliances for the testing of eyes, and I am fully qualified to carry out this work in the most efficient and satisfactory manner possible. . . . . .

On the JEWELLERY and SILVERSMITH side of my business, I carry an up-to-date stock of WATCHES, CLOCKS, BAROMETERS, SPORTING TROPHIES, etc., all of which are offered at competitive prices. . . . . .

REPAIRS are effected on the premises, and in every department entire satisfaction is guaranteed. . . . . .

31, GREAT DARKGATE ST. ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.